OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 522 (Cy.72)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 113(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraffau 1(1) a 5(1), (2) a (4) o Atodlen 4 iddi, a rheiny'n bwerau sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2003.

Cymhwyso a Dehongli

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**3**).

(3) Bydd i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr â'r termau Saesneg cyfatebol yn y prif Reoliadau.

Diwygio'r Prif Reoliadau

3. Mae'r Prif Reoliadau yn cael eu diwygio fel a ddarperir yn Rheoliad 4.

Atafaelu enillion: credydau treth

4. Yn Rheoliad 32(1) (dehongli etc) o'r Prif Reoliadau, yn y diffiniad o "earnings", mewnosodwch ar ôl is-baragraff (v)—

(**1**) 1992 (p.14).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/613.